**CRICED CYMRU**

**Pennaeth Cyfranogiad**

**DISGRIFIAD O'R SWYDD**

**Teitl y Swydd:** Pennaeth Cyfranogiad (Amser Llawn)

**Yn adrodd i:** Prif Weithredwr Criced Cymru

**Cyflog:** £50,000 y flwyddyn a buddiannau

**Rheolwr Llinell:** Rheolwyr Criced Ardal Criced Cymru, Rheolwr Buddsoddi mewn Cyfleusterau, Rheolwr Datblygu Hyfforddwyr a'r Cydlynydd Cystadlaethau Cenedlaethol

**Lleoliad Prif Swyddfa**: Gerddi Sophia, Caerdydd (ystyrir gweithio hyblyg, gweithio o bell neu weithio hybrid)

**Am y Rôl**

Bydd y swydd newydd sbon hon yn siapio dyfodol Criced Cymru dros y ddegawd nesaf a thu hwnt. Mae'n gyfle heriol, amrywiol a hynod foddhaol ar gyfer uwch-arweinydd presennol, neu rywun sydd â'r sgiliau iawn, sy'n barod ar gyfer y cam nesaf yn eu gyrfa.

Rydym yn chwilio am arweinydd uchelgeisiol, proffesiynol gyda gwerthoedd cadarn i'n helpu i greu a hyrwyddo gweledigaeth hirdymor newydd ar gyfer y gêm. Y nod yw dod yn gorff llywodraethu cynaliadwy, gweladwy, gydag adnoddau digonol, a strwythur da a fydd yn caniatáu inni ddod yn un o'r chwaraeon tîm mwyaf cynhwysol yn y wlad. Bydd ein Pennaeth Cyfranogiad yn goruchwylio pob agwedd o Ddatblygiad Criced a bydd yn chwarae rôl allweddol o ran datblygu ein diwylliant a sefydlu gwerthoedd newydd.

Un o agweddau allweddol y rôl hon yw hyrwyddo diwylliant tîm unedig ledled y gêm. Drwy feithrin cydweithrediad, undod a chydgyfrifoldeb, bydd y Pennaeth Cyfranogiad yn sicrhau bod holl aelodau'r tîm yn rhannu'r un weledigaeth a nodau. Bydd y dull unedig hwn nid yn unig yn gwella'r cyfathrebu a'r cydweithredu ar draws y byd criced yng Nghymru, ond mi fydd hefyd yn adeiladu amgylchedd gwaith cefnogol a phositif o fewn Criced Cymru, lle mae cyfraniadau pawb yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r pwyslais ar ddiwylliant tîm unedig yn hanfodol er mwyn ysgogi ein pobl i gyflawni'n gweledigaeth, strategaeth ac amcanion. Bydd yn helpu i lywio'r heriau a'r cyfleoedd sydd o'n blaenau, wrth i'n gêm dyfu ar raddfa gyffrous ond digynsail.

Byddwch yn arwain y tîm o dri Rheolwr Criced Ardal a'u timau unigol, sy'n darparu gwasanaeth cyd-gysylltiedig ar gyfer clybiau a'r rhwydwaith criced ehangach, gyda ffocws arbennig ar sicrhau iechyd y gêm draddodiadol a thwf posib marchnadoedd newydd.

Byddwch hefyd yn arwain ac yn sicrhau integreiddio di-dor rhwng y gwaith hwn â rolau'r Rheolwr Buddsoddi mewn Cyfleusterau, y Rheolwr Datblygu Hyfforddwyr a'r Cydlynydd Cystadlaethau Cenedlaethol.

**Amdanom ni**

Mae Criced yng Nghymru yn ffynnu. Mae cyfraddau uwch nag erioed o chwaraewyr benywaidd, mae ein hymgysylltiad â grwpiau sy'n tueddu i gael eu tangynrychioli'n cynyddu'n aruthrol bob blwyddyn, a serch heriau'r tair blynedd diwethaf, rydym wedi tyfu ein camp ledled Cymru, ac rydym bellach yn cynnig ffyrdd newydd i bobl chwarae yn eu cymunedau, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae llai o draddodiad o chwarae criced, neu lle mae'r rhwystrau rhag cymryd rhan yn parhau i fod yn uchel. Gweler yr adroddiad yma **.**

Bydd deiliad y swydd yn rhan annatod o'n uwch dîm. Bydd yn adrodd i'r Prif Weithredwr ac yn gweithio'n agos, ac ochr yn ochr â'r Pennaeth Partneriaethau a Datblygu Busnes, Rheolwr y Llwybr Talent, y Swyddog Diogelu, a'r Tîm Datblygu Criced.

**Amdanoch chi**

Os ydych chi'n chwilio am gyfle gyrfaol sydd â'r potensial i siapio dyfodol camp ddeinamig ac uchelgeisiol, dyma'r rôl i chi. Byddwch yn dod â phrofiad helaeth a gwybodaeth ddofn o ddatblygu chwaraeon, yng Nghymru a thu hwnt, i lywio'n blaenoriaethau a helpu'n gêm i gyflawni hyd eithaf ei photensial. Bydd eich deallusrwydd emosiynol a'ch sgiliau cyfathrebu rhagorol yn eich galluogi i gydweithio'n effeithiol, ac adeiladu perthnasoedd positif gydag amrywiaeth eang o unigolion a grwpiau.

**Crynodeb o'r Rôl**

**Arweinyddiaeth a Phobl**

- Darparu arweinyddiaeth a chyfarwyddyd effeithiol ar draws pob un o feysydd craidd cyfranogiad mewn criced.
- Rheoli ein Tîm Datblygu Criced, gan sicrhau eu bod nhw a'u timau'n darparu gwasanaeth unedig ar gyfer clybiau a'r rhwydwaith criced ehangach.
- Sicrhau bod yr holl staff yn cydweithio a bod cysylltiad rhyngddynt ar draws pob rhan o'r sefydliad.
- Bod yn rheolwr llinell ar gyfer y Rheolwr Buddsoddi mewn Cyfleusterau, y Rheolwr Datblygu Hyfforddwyr a'r Cydlynydd Cystadlaethau Cenedlaethol, gan gydlynu eu gwaith ledled Cymru.
- Dirprwyo ar gyfer y Prif Weithredwr, gan fynychu cyfarfodydd perthnasol ac arwain ymgysylltiad â staff.
- Cynnig cymorth rheolwr llinell perthnasol, gan osod amcanion sydd â chysylltiad amlwg â nodau Criced Cymru, a darparu cymorth yn unol â diwylliant y sefydliad.
- Cynnal perthynas gydweithredol barhaus â Chlwb Criced Morgannwg.

- Ysgogi a chynorthwyo staff i nodi a chael mynediad at gyfleoedd dysgu ar gyfer datblygiad gyrfaol a phersonol.
- Arwain cynlluniau'r gweithlu ar gyfer gweithrediadau criced, gan ymchwilio i arferion gorau ac ymgysylltu â staff i strwythuro gwaith criced er mwyn cyrraedd nodau strategol a thargedau cyflenwi.
- Mynychu cyfarfodydd y Bwrdd a chyfarfodydd is-bwyllgorau fel bo'n briodol.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesur â lefel y swydd.

**Perthnasoedd a Chyfathrebu**

- Adeiladu, cynnal, a goruchwylio perthnasoedd positif gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid allweddol.
- Hyrwyddo diwylliant tîm unedig o fewn Criced Cymru drwy fodelu a rhoi arferion cyfathrebu cynhwysol a thryloyw ar waith. Sefydlu seilwaith cyfathrebu clir ac atebolrwydd ar gyfer pob gweithgaredd criced, gan gynnwys staff, hyfforddwyr, gwirfoddolwyr, chwaraewyr, a theuluoedd.
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid o fewn cymuned Criced Cymru i ymgynghori, cydweithio, rhannu cynlluniau, gwella ymgysylltiad, a hyrwyddo criced.
- Cydweithio â phartneriaid posib a rhanddeiliaid i godi proffil criced a hyrwyddo ymgysylltiad pellach ledled clybiau criced, grwpiau cymunedol lleol, ysgolion, addysg uwch, llywodraeth leol, a busnesau lleol.
- Gweithio gyda sefydliadau chwaraeon allweddol megis Clwb Criced Morgannwg, yr ECB, Chwaraeon Cymru, Lord Taverners, Chance to Shine, a'r MCC i gyflawni nodau ac amcanion a rennir.
- Goruchwylio a chyfrannu at sianeli cyfathrebu Criced Cymru, gan greu cynnwys rheolaidd ar gyfer y wefan, y cylchlythyr, a'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo cyfraniad cymdeithasol criced yng Nghymru.

**Strategaeth**

- Cynorthwyo'r Prif Weithredwr a rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu a rhoi Gweledigaeth a Strategaeth hirdymor Criced Cymru ar waith, a llunio Cynlluniau Busnes blynyddol.
- Arwain y Rhaglen Gymunedol ar lefel strategol ledled Cymru drwy gydweithio â phartneriaid ariannu, cytuno ar dargedau, a rheoli staff.
- Integreiddio dull cynhwysol ac amrywiol i bob elfen o griced drwy ymchwil a mentrau.
- Sefydlu aliniad clir rhwng strategaeth, Cynllun Busnes, a chynlluniau a thargedau cyflenwi lleol Criced Cymru.
- Sicrhau bod gweithlu, seilwaith, a systemau addas yn eu lle i gyflawni'n weledigaeth.
- Datblygu a rhoi cynlluniau technegol, cynlluniau datblygu criced, strategaethau, a chynlluniau busnes allweddol ar waith, mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol.

- Adolygu a chyflwyno systemau, polisïau, dulliau a rhaglenni yn barhaus gan ddefnyddio a dadansoddi data.
- Darparu adroddiadau manwl i'r bwrdd ar feysydd cyfrifoldeb fel bo'n ofynnol.
- Goruchwylio'r gwaith o gyflenwi a mireinio cynllun gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) Criced Cymru, gan sicrhau ei fod yn cwrdd â'i amcanion ac yn sicrhau tegwch mewn perthynas â menywod, merched, cymunedau ethnig amrywiol, anabledd, ardaloedd difreintiedig, y Gymraeg, a'r holl nodweddion a warchodir.
- Dadansoddi data a dealltwriaeth i hyrwyddo penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar draws y byd criced yng Nghymru.
- Cynorthwyo i ledaenu mentrau newydd o fewn y byd criced ledled Cymru.

**Cyllid a Gweithrediadau**

- Rheoli'r holl gynlluniau ariannol a gweithrediadau sy'n gysylltiedig â datblygu criced.
- Cyfrannu at y gwaith o gynllunio cyllideb sefydliadol, gan ganolbwyntio ar agweddau datblygu criced.
- Gweithio gyda'r Prif Weithredwr a'r uwch reolwyr i greu rhagolygon a thargedau incwm, gwariant a gwarged, a sicrhau bod y staff yn gwybod am y rhain.
- Darparu adroddiadau amserol a chywir fel sail ar gyfer cynllunio ariannol, adolygu a chynaliadwyedd.
- Hyrwyddo gwelliannau o ran effeithlonrwydd gweithredol, cyllid, a chynaliadwyedd amgylcheddol.
- Nodi partneriaethau a darparwyr nawdd posib, a chyfleoedd pellach i gynhyrchu incwm.

**I gael manylion am ein hymrwymiad i Recriwtio Mwy Diogel gweler yma**

**MANYLEB PERSON: Gweler Trosodd**

<table>
<tr><th>HANFODOL</th><th>DYMUNOL</th></tr>
<tr><td>Cymwysterau<ul><li>Wedi mynychu cwrs Diogelu ac Amddiffyn Plant</li><li>Cymhwyster Cymorth Cyntaf</li><li>Gwiriad DBS Manwl (ar benodi)<br>Wedi cofrestru gyda'r ECB</li></ul></td><td>Cymwysterau<ul><li>Cymwysterau chwaraeon</li><li>Gradd</li><li>Hyfforddiant arweinyddiaeth</li></ul></td></tr>
<tr><td>Profiad o:<ul><li>Ysbrydoli, datblygu a chynorthwyo timau i weithio'n effeithiol a chyflawni nodau unigol ac ar y cyd</li><li>Uwch Reoli a dylanwadu'n effeithiol ar randdeiliaid lefel uwch</li><li>Gosod esiampl o ran gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol</li><li>Creu, datblygu a rhoi strategaethau llwyddiannus ar waith</li><li>Y gallu i feddwl yn strategol a'i droi'n weithred</li><li>Profiad o sefydlu perthnasoedd positif ar bob lefel</li><li>Profiad o osod, rheoli ac adrodd ar gyllidebau cymhleth.</li></ul></td><td>Profiad o:<ul><li>Weithio mewn rôl debyg o fewn sefydliad criced e.e. Bwrdd Sirol neu GLlC</li><li>Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r sector gwirfoddol, hyfforddi, amgylcheddau clybiau ysgol a chlybiau chwaraeon ac anabledd</li><li>Arwain strategaethau buddsoddi mewn cyfleusterau</li></ul></td></tr>
<tr><td>Gwybodaeth a dealltwriaeth o:<ul><li>Wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata a thystiolaeth</li><li>Amgylchedd Clwb Chwaraeon</li><li>Cyfleusterau chwaraeon</li><li>Datblygu Chwaraeon</li><li>Amddiffyn a Lles Plant mewn chwaraeon</li></ul></td><td>Gwybodaeth a dealltwriaeth o:<ul><li>Weithrediadau'r byd chwaraeon ehangach o fewn y DU ac yn fyd-eang</li></ul></td></tr>
<tr><td>Sgiliau:<ul><li>Sgiliau arwain a rheoli</li><li>Y gallu i fod yn chwaraewr tîm yn ogystal ag yn arweinydd sy'n gwerthfawrogi cyngor gan gydweithwyr</li><li>Y gallu i addasu dulliau cyfathrebu yn ôl y gynulleidfa a'r sefyllfa</li><li>Sgiliau trefnu</li><li>Sgiliau gweinyddu</li><li>Sgiliau TG</li><li>Y gallu i ddatblygu perthnasoedd gwaith effeithiol a buddiol gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid a chyflenwyr</li><li>Sgiliau cynllunio a threfnu, ynghyd â'r gallu i fod yn systematig, rhesymegol a phragmatig.</li></ul></td><td>Sgiliau:<ul><li>Siaradwr Cymraeg</li></ul></td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| Priodweddau<br>• Y gallu i weithio ar eich liwt eich hun a rheoli'ch llwyth gwaith eich hun, ond hefyd i gynorthwyo'r tîm pan fo angen<br>• Y gallu i weithio'n gywir gan roi sylw i fanylion<br>• Dealltwriaeth o weithio gyda gwirfoddolwyr<br>• Parodrwydd i weithio oriau anghymdeithasol fel bo angen | |
| Ychwanegol<br>• Trwydded Yrru DU lawn a defnydd o gerbyd<br>• Parodrwydd i weithio oriau hyblyg gan gynnwys ar nosweithiau a phenwythnosau<br>• Sgiliau trefnu<br>• Sgiliau gweinyddu<br>• Sgiliau TG | Cariad angerddol at chwaraeon |

**Adolygwyd: Gorffennaf 2024**